O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 457 (Cy. 111)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llangollen a Chorwen, Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Ebrill 2022* |
| *Yn dod i rym* | *25 Ebrill 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llangollen a Chorwen, Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Ebrill 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith o gludo’r llwythi anwahanadwy annormal sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y cludo” (“*transportation period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 25 Ebrill 2022 ac sy’n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn yn ystod cyfnod y cludo.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Ebrill 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLEN

Y darnau o ddwy ochr y gefnffordd o'r enw Berwyn Road, Llangollen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn tua'r gorllewin o bwynt 43 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Farchnad am bellter o 215 o fetrau.

Ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 95 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 128 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd y Bont, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 138 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Las hyd at bwynt 197 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.